



Pris: 50c

# Papur Pawb

Rhagfyr 2019 Rhif 454



Daeth y Nadolig yn gynnar i Ceri Morgan, Tŷ Ceulan, Tal-y-bont wrth iddi ennill hamper Ffair Nadolig y Neuadd eleni. Adroddiad llawn ar dudalen 4.

tud 3  
Pobl a Phethe

tud 4  
Ffair y Neuadd

tud 4/5  
Ysgol Tal-y-bont

tud 8  
Dydd a Nos

## Oes llwybr ar y ffordd?

Mae cynlluniau i greu llwybr newydd i helpu i gysylltu cymunedau Tal-y-bont, Tre Taliesin a Thre'r Ddôl yn parhau gyda thrywydd posib wedi'i nodi yn dilyn trafodaethau rhwng cynghorau cymuned Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn a'r tîrfeddiawyr perthnasol.

Os yn llwyddiannus bydd y prosiect yn gweld darn newydd o lwybr cyhoeddus yn cael ei greu rhwng y fynedfa i fferm Tanrallt yn Nhal-y-bont yna'n parhau ar hyd ochr orllewinol yr A487 trwy'r fynwent ac ymlaen i hawl tramwy cyhoeddus presennol gyferbyn â fferm Erglodd.

O'r fan hon, bydd angen teithio i lawr y llwybr cyhoeddus i ymuno â'r ffordd fach sy'n cysylltu Pentre Bach â Thre Taliesin (yn unol â'r map).

Bydd y gallu i gael gafael ar gyllid grant yn hanfodol i lwyddiant y cynllun a gyda hyn mewn golwg mae cynghorau cymuned Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn yn awyddus i breswylwyr gysylltu â nhw i ddangos eu cefnogaeth. Bydd dangos tystiolaeth o angen, o gymorth mawr i'r rhai fydd yn llunio unrhyw gais.

Os oes gennych sylwadau ar yr argymhelliad e-bostiwhch: [eifionj1977@icloud.com](mailto:eifionj1977@icloud.com)

Eifion Jones



### Dirgelwch y Meinciau



Ar y ffordd i Bentre-bach y tu ôl i Tanrallt mae rhywun wedi bod yn tyllu i mewn i'r clawdd ar yr ochr chwith wrth deithio i gyfeiriad Pentre-bach ac wedi gosod dwy fainc bren ac wedi eu peintio â phaent lliw brown.

Dyrnwyd dau bolyn i mewn i'r ddaear a gosodwyd ystyllen ar eu traws i ffurfio mainc fach. Mae un ohonynt wedi ei gosod wrth ymyl safle'r fainc a gafodd ei lladrata yn ystod yr haf. Mae ymddangosiad y ddwy fainc bren newydd yn ddirgelwch llwyr.

Os gall rhywun daflu goleuni ar y mater, yna byddai'r Cyngor Cymuned yn falch o glywed. Mae'r Cyngor eisoes wedi archebu mainc blastig newydd i'w gosod yn lle'r un a ddygwyd. Cwbl annisgwyl yw fod y ddwy fainc bren wedi eu gosod yn ystod yr wythnos cyn 29 Tachwedd.



Cafodd Sam Ebenezer Maes-y-felin gyfle gwych i rannu llwyfan â Shane Williams wrth iddynt ffilmio Shane a'r Bont Hud yn Theatr Ffwrnes, Llanelli yn ddiweddar. Bydd cyfle i weld y Panto ar S4C ar ddydd Nadolig. Dyma lun ohono gyda seren arall y sioe, Ieuan Rhys.



## Papur Pawb

<b>Golygydd Cyffredinol:</b>	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	(01970) 832560
<b>Tynnu lluniau:</b>	Cysyllter â golygyddion y mis	
<b>GOHEBYDDION LLEOL</b>		
<b>Tal-y-bont:</b>	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont	832592
<b>Maes-y-deri:</b>	Karren Roberts	07800 806578
<b>Parsel Henllys:</b>	Lynwen Morgan	832498
<b>Bont-goch:</b>	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
<b>Tre Taliesin:</b>	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
<b>Tre'r-ddôl:</b>	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	(01654) 781260
<b>Eglwysfach/Ffwrnais:</b>	Non Griffiths	(01654) 781264
<b>Rhwydweithiau cymdeithasol:</b>	Ceri Morgan	
<b>CYMDEITHAS PAPUR PAWB</b>		
<b>Cadeirydd:</b>	Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont	832697
<b>Is-gadeirydd:</b>	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
<b>Ysgrifennydd:</b>	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
<b>Trysorydd:</b>	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
<b>Tanysgrifiadau:</b>	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
<b>Hysbysebion:</b>	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
<b>Plygu'r Papur:</b>	Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins	
<b>Dosbarthwyr:</b>	Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

[www.papurpawb.cymru](http://www.papurpawb.cymru)

hefyd dilyniwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)



Golygyddion y rhifyn hwn oedd Phil a Megan gyda Siôn yn dylunio. Diolch iddynt. Golygyddion rhifyn Ionawr 2020 fydd Mair, Beryl a Lisa (mair.n@btinternet.com).

Y dyddiad cau yw 3 Ionawr a bydd y papur ar werth ar 10 Ionawr.

Mae Eleri a Gwilym, Meisgyn, yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl ffrindiau yn ardal Papur Pawb. Pob dymuniad da!



### Eisteddfod Ceredigion 2020

Neges oddi-wrth Elin Jones at bob Cronfa Leol.

Annwyl bawb,

Dyma ddarn o newyddion da i rannu gyda chi cyn y Nadolig ac ond ychydig dros flwyddyn ers i'r ymdrechion codi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol gychwyn yng Ngheredigion. Mae'r targed o £330,000 i'r Gronfa Leol wedi ei gyrraedd. Hwre! A diolch i bawb a fwriadodd ati gyda'r fath fwrlwm a threfn i gynnal gweithgareddau ac i gyfrannu.

Adroddwyd y newyddion hyn i'r Pwyllgor Gwaith lleol yn Nhregaron gyda phawb yn ganmoliaethus o'r ymdrech arwrol ac effeithiol yma. Mae ambell gronfa ardal heb gyrraedd eu targed unigol eto ac, wrth gwrs, mae nifer o weithgareddau dal ar y gweill. Mae'r Pwyllgor Gwaith lleol yn hyderus felly y gallwn anelu tu hwnt i'r targed gwreiddiol. Penderfynwyd y gallwn yn rhesymol anelu at godi £400,000 erbyn Awst 2020 er mwyn sicrhau yr Eisteddfod mwyaf llwyddiannus posib.

Gyda'r arian ychwanegol yma 'rydym wedi cytuno gyda swyddogion yr Eisteddfod y byddant yn ei flaenoriaethu ar ddatblygu Pentref Gwledig newydd ar y Maes i hyrwyddo cefn gwlad, Pentref Siarad Cymraeg i hwyluso profiad dysgwyr y Gymraeg a gwariant ar adnoddau newydd i'r Maes i wella cyfleusterau eistedd, cysgodi ac hamddena.

Ni fyddwn yn gosod targedau newydd i ardaloedd lleol. Ein bwriad yn unig yw i annog pawb i ddal ati i gynnal digwyddiadau i hyrwyddo'r Eisteddfod ac i godi rhywfaint o arian hefyd wrth wneud hynny. Nid ydym am i'r bwrlwm a'r gweithgaredd ddod i ben a 'rydym yn awyddus iawn i ddenu diddordeb gymaint â phosib o bobol Ceredigion i ymddiddori a chyfrannu i'r Eisteddfod. Gallwn greu Eisteddfod i'w chofio yn Nhregaron 2020.

Gyda diolch am bopeth a gyflawnwyd hyd yma a phopeth sydd eto i ddod.

Elin Jones

(ar ran Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020)

## Dyddiadur

### RHAGFYR

#### 14 Cinio Nadolig Henoed

Llangynfelyn 12.00  
Wildfowler

Gwasanaeth Carolau  
Cymunedol 5-7.30 Cletwr

#### 15 Bethel 10 Gwasanaeth Teulu

Rehoboth 10.00

Eglwys Llangynfelyn yn  
Llanfach 2.15 Gweddi  
Hwyrrol

Eglwys Sant Mihangel,  
Eglwysfach 4.30

Gwasanaeth Carolau, ac i  
ddilyn yn Ynyshir

Eglwys Sant Pedr, Elerch

2.30 Gwasanaeth Carolau  
dwyieithog. Casgliad tuag  
at Uned Chemotherapy,  
Ysbyty Bronlais

#### 16 Arwyddo llyfr The Wild Places gan Iolo Williams 1-2.00 Cletwr

#### 18 Sioe Tal-y-bont: Gyrfa Chwist Dofednod 8.00 Neuadd Goffa

#### 19 Tai Chi 2.00 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach

Bingo 7.30 Wildfowler

#### 20 Singalong Nadolig 7-9.00 Cletwr

#### 21 Dal Ati 11-12.00 Cletwr

#### 22 Bethel 10.00 Judith Morris (C)

Rehoboth 11.15 Bugail

Eglwys Llangynfelyn yn  
Llanfach 2.15  
Gwasanaeth Carolau

Eglwys Sant Mihangel,  
Eglwysfach 9.30  
Gwasanaeth Boreol

#### 24 Siôn Corn yn Cletwr 11-1.00 Cletwr

Cymun Nadolig 5.00  
Eglwys Sant Matthew,  
Borth

Bethel 5.30 Gwasanaeth  
Noswyl Nadolig yr Ysgol  
Sul

Tenis Bwrdd 7.00 Yr  
Ystafell Haearn,  
Eglwysfach

#### 25 Bethel 10.30 Gwasanaeth Bore Nadolig

Eglwys Sant Mihangel,  
Eglwysfach 9.30 Cymun  
Bendigaid

#### Eglwys Sant Pedr, Elerch

8.00 Cymun Bendigaid

#### 27 Cwis 8.00 Wildfowler

#### 29 Bethel 10.00 Uno yn Seion, Stryd y Popty (Aled Davies)

Rehoboth 10.00 Judith  
Morris

Eglwys Llangynfelyn yn  
Llanfach 2.15 Gweddi  
Hwyrrol

Eglwys Sant Mihangel,  
Eglwysfach 9.30  
Gwasanaeth

#### 31 Parti Calan 7.30 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach

### IONAWR

#### 2 Gweithdy: Gwneud Sêr i'w rhoi yn y ffenestr 3-5.00 Cletwr

Torri Gwallt yn y Caban  
11-3.00 Cletwr

Bingo 7.30 Wildfowler

#### 3 Sefydliad y Merched Taliesin Noson gymdeithasol

#### 5 Bethel 11.15 Uno yn Nasareth

Nasareth

Rehoboth

Eglwys Llangynfelyn yn  
Llanfach 2.15 Cymun  
Bendigaid

Eglwys Sant Mihangel,  
Eglwysfach 9.30

Eglwys Sant Pedr, Elerch  
2.30 Cymun Bendigaid

Clwb Rhedeg 9.30-10.15  
Cletwr

#### 10 Clwb Llyfrau 2.30-3.30 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach

Cwis 8.00 Wildfowler

Cletwr Bob dydd Mawrth  
'Clonc a Gweu' 3-5.00

Bob dydd Sul 'Rhedeg  
Cymdeithasol'  
9.30-10.30

**Afiaith**

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol

Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH  
Powys SY20 8JG Cymru

Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 [afiaith@aol.com](mailto:afiaith@aol.com)

## Cyrraedd y Cant

Anfonwn ein cyfarchion at Valma Jones, Wern, Tal-y-bont fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed wrth i'r Papur ymddangos ar 13 Rhagfyr.

### Pen-blwydd arbennig

Pob dymuniad da i Mick Fothergill, Minafon, Tal-y-bont, sydd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn y mis hwn.

### Brysiwch wella

Da yw deall fod Arvid Parry-Jones, Isallt, Tal-y-bont yn gwella'n dda yn dilyn ei driniaeth diweddar yn ysbyty Bronglais.

Dymunwn wellhad buan i Cian Llewelyn, Is-y-coed, Tal-y-bont ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth ar ei goes yn dilyn anffawd rhai misoedd yn ôl.

### Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Danny a Jasmine Byrne ar enedigaeth mab bach, sef Archer Francis Byrne. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Nia a Deulwyn Evans, Llwyn-ysgubor-wen ar golli mam Nia yn Llanbryn-mair ddiwedd Tachwedd. Hefyd â'r plant, Mirain, Lleucu a Wil ar golli Nain

### Damwain a Llwyddiant

Deallwn fod Hedydd Phylip, Gwynionydd, Tal-y-bont yn gwella'n dda wedi iddi dorri ei choes yn ddiweddar. Mae Hedydd newydd ddechrau astudio ar gyfer Doethuriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd ar ôl derbyn gradd Meistr M.Sc.

### Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Rhys a Trish Huws, Llwyn Onn, Pentre-bach ar enedigaeth ail wyres, sef Elin ym Mhontcanna, Caerdydd. Mae Elin yn ferch i Curig a Laura ac yn chwaer fach i Evie.

### Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Dafydd Mason, Craig-fach, Bont-goch ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar 4 Rhagfyr.

# Pobl a Phethe



*Llongyfarchiadau mawr a phob hapusrwydd i Danny a Jasmine Byrne ar achlysur eu priodas ar 17 Awst.*

### Cydymdeimlo

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Gwen Williams, Maes Afallen, Bow Street (Gwarcwm Isaf gynt) ym mis Tachwedd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i gŵr Eurfryn, eu plant Gaynor, Gwawr, Alan a Hefin, eu hwyron a gweddill y teulu.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn gyda Neilson a Sue, Hafod Elerch, Bont-goch yn dilyn eu profedigaeth lem yn ddiweddar. Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf â'r teulu cyfan yn dilyn eu colled.

### Trigolion Bont-goch

Bu Richard Huws, Bont-goch yn rhoi sgwrs yn y Drwm i Gymdeithas Hanes Ceredigion ar rai o drigolion enwog Bont-goch ar Dydd Sadwrn 7 Rhagfyr. Mae Richard yn



*Elgan Evans Tŷ Nant a phencampwr y Gwartheg Duon, Beddycoedwr Banner, yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd.*

*Llun: Arvid Parry-Jones*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i fy ffrindiau a holl ddarllenwyr *Papur Pawb* oddi wrth Kathleen Richards, Bryn, Tal-y-bont. Nid wyf yn medru danfon cardiau eleni, ond byddaf yn rhoi cyfraniad tuag at elusen.



**James Memorials**

Am  
**GOFBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled  
rhad ac am ddim

James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111


### Llwyddiant Teulu Tŷ Nant

Llongyfarchiadau i deulu Tŷ Nant, Bont-goch a gafodd lwyddiant mewn nifer o gystadlaethau yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd y mis diwethaf.

Enillwyd pencampwriaeth y Gwartheg Duon gyda'r bustach a aeth ymlaen wedyn i ennill y gilwobr yng nghystadlaethau y bridiau cynhenid Prydeinig.

Enillwyd y gilwobr yng nghystadlaethau y dofednod gyda'r wŷdd a hefyd nifer o wobrau eraill yn y cystadlaethau dofednod.

# Ysgol Tal-y-bont



## Ffair y neuadd yn torri record

Daeth tyrfa luosog i Neuadd Goffa Tal-y-bont ddiwedd Tachwedd ar gyfer y Ffair Nadolig flynyddol ac ar ddiwedd y dydd cyhoeddodd Ieuan Morgan y Trysorydd fod y cyfanswm a godwyd wedi cyrraedd £1,250 sef yr uchaf ers iddo fod yn y swydd.

Dymunai'r Pwyllgor Rheoli ddiolch o galon i'r holl fudiadau a gyfrannodd at lwyddiant y dydd, sef Cymdeithas y Sioe a'r Treialon Cŵn Defaid, Merched y Wawr, Papur Pawb, y Clwb Ieuenctid, Rhieni ac Athrawon Ysgol Tal-y-bont, yr Ysgol Feithrin a C.F.F.I. Tal-y-bont. Diolch hefyd i'r busnesau a'r crefftwyr a gefnogodd yr achlysur gan ychwanegu at lwyddiant y dydd, sef Y Lolfa, BroAber360, Ruth Jên, Gwladys, Gwen, Non ac Alaw.

Diolch hefyd i aelodau'r Pwyllgor Rheoli am eu holl waith cyn ac yn ystod y dydd ac am eu cyfraniadau hael tuag at yr ymborth a'r rafflau.

Bydd yr arian a godwyd yn caniatáu i'r Pwyllgor ddal ati i gadw prisiau llogi'r Neuadd ar lefel resymol yn enwedig ar gyfer gweithgareddau plant a phobl ifanc. Mae'r Neuadd yn adnodd holl bwysig ac roedd cefnogaeth y gymuned i'r ffair eleni yn arwydd o'i phwysigrwydd i'r gymdogaeth gyfan.



**K Hughes**

**Plymio a Gwresogi**

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi  
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235



## Goleuo'r Neuadd Goffa

Mae goleuo coeden Nadolig y pentref yn dipyn o draddodiad erbyn hyn. Er gwaethaf y tywydd gwlyb, roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o bobl y gymuned yn dod i weld plant yr ysgol yn perfformio yn y Neuadd Goffa eleni eto. Hoffwn ddiolch yn fawr am wahoddiad y Cyngor Cymuned i gyflwyno'r eitemau a diolch yn fawr i'r staff ac i Mrs Falyri Jenkins am baratoi'r eitemau. Ond mae'r diolch mwyaf yn mynd i'r plant am eu cyfraniadau amrywiol. Uchafbwynt y noson fel arfer oedd gweld Finley ac Alice, Llysgenhadon yr Ysgol, yn cynnau'r golau. Nadolig Llawen i bawb.

## Ffair y Neuadd

Hoffwn ddiolch yn fawr i aelodau o'r Gymdeithas Rieny ac Athrawon am drefnu stondin yr ysgol eleni eto. Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o brysurdeb yn ystod y prynhawn.

## Ysgol Iach

Dyma rai o sêr mis Tachwedd yn cael eu gwobr am gyflawni gwaith da yn yr ysgol. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

## Gala Nofio'r Urdd

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yng ngala nofio'r Urdd yng Nghanolfan Plascrug eleni eto. Mae hon yn gystadleuaeth ranbarthol gyda phob ysgol yng Ngheredigion yn cystadlu ac roedd y safon yn eithriadol o uchel eleni eto. Llongyfarchiadau mawr i bawb am gymryd rhan a gobeithio fod pawb wedi mwynhau'r profiad. Mae'n braf gallu cyhoeddi y bydd Finley Saycell yn cynrychioli Ceredigion mewn dwy ras yn y gala cenedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Ionawr. Dymuniadau gorau i ti Finley, rydym yn falch iawn bod yr holl ymarfer wedi dwyn ffrwyth i ti.

## Tîm Hoci

Daeth y tymor i ben gyda'r tîm yn chwarae mewn pencampwriaeth ar gae'r brifysgol yn Aberystwyth. Roedd llawer o'r chwaraewyr yn newydd i'r gamp ym mis Medi ac roedd hi'n hyfryd gweld eu techneg wedi gwella cymaint a hynny mewn cyfnod mor fyr. Da iawn chi gyd.

## Diwrnod Plant Mewn Angen

Eleni roedd y Cyngor Ysgol wedi penderfynu gofyn i bawb wisgo pyjamas neu ddillad smotiog i'r ysgol ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Cafwyd diwrnod hwyliog iawn gyda llawer o weithgareddau bywiog i godi ymwybyddiaeth o'r achos da. Diolch i bawb am gyfrannu tuag at yr elusen bwysig yma. Codwyd £80 – diolch yn fawr.

## Diwrnod 'Disney'

Yn dilyn gwaith thema yn ystod mis Tachwedd, trefnwyd i Anthony o elusen The Wallich ymweliad â'r ysgol. Mae'r Wallich yn elusen sy'n gweithio'n Aberystwyth i gynorthwyo pobl di-gartref yn yr ardal. Mae'r elusen yn credu y dylai pawb gael yr hawl i gartref, ond yn fwy na hynny, fod pawb yn haeddu'r hawl i deimlo'n ddiogel, i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac i deimlo'n bositif am eu dyfodol. Roedd y negeseuon yma wedi gwneud argraff fawr ar blant hŷn yr ysgol ac wedi eu hysbrydoli i drefnu digwyddiad i godi arian i helpu'r elusen. Fel rhan o'r diwrnod, roedd cyfle i'r plant chwarae nifer o wahanol gemau ac i gael eu hewinedd wedi eu peintio! Thema'r diwrnod oedd 'Disney' ac roedd hi'n hyfryd i wel cymaint wedi mynd i'r ymdrech o wisgo fel eu hoff gymeriadau. Llongyfarchiadau mawr i blant Blynnyddoedd 5 a 6 am drefnu'r gweithgareddau a'r newyddion da yw ein bod wedi casglu £114 i'r elusen. Diolch yn fawr am yr holl gyfraniadau ac i rieni'r plant am eu cefnogaeth.

## Penllanw Apêl Madagascar

Cyrhaeddodd penllanw yr holl ymdrechion i godi arian i Apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr pan gynhaliwyd noson o ffilmiau difyr yng nghapel Bethel.

O dan arweiniad Helen Jones bu'r pwyllgor gweithgar yn gyfrifol am sawl cynllun llwyddiannus dros ben, gan gynnwys cyhoeddi llyfr rysâit *Bwyd i Bawb* a chynnal cinio cawl yn y Neuadd Goffa yn dilyn gwasanaeth boreol.

Cafwyd cefnogaeth ardderchog gan y gymuned gyfan i'r holl gynlluniau hyn ac roedd yr un peth yn wir am y noson ffilmiau. Teulu estynedig Gwilym ac Ann Jenkins oedd yn gyfrifol am yr holl drefniadau gan gynnwys paratoi a gweini'r lluniaeth hael.

Roedd y ffilmiau a ddangoswyd yn ffrwyth dros 26ain mlynedd o recordio gan Gwilym ac Ann ers 1992 pan holwyd Edgar Humphreys ym Mwlchstyllen hyd at 2018 pan holwyd Elgan Evans, Pant-coch.



*Helen Jones yn cyflwyno'r noson o ffilmiau Gwilym ac Ann Jenkins*

Daeth y ffilm yn ail yng nghystadleuaeth 'Casgliad o Enwau tai Anedd Diflanedig' a drefnwyd gan Gymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion. Richard Huws, Bont-goch gipiodd y wobwr gyntaf gyda'i llyfr *Enwau tai a ffermydd Bont-goch (Elerch)*, cyfrol sydd yn dal ar werth gan yr awdur am £9.99.

I gyd-fynd â'r noson cyhoeddwyd taflen sy'n cynnwys dros 90 o enwau tai diflanedig gogledd Ceredigion megis Gelli grin, Llwyn-Wallter, Lluet gota, Nant y perfedd, Tafarn Waun Sarnau. Gellir holi Mair Nutting os am gopi o'r daflen sydd ar werth am £1.00.

Ar ddiwedd y noson diolchodd Angharad Fychan yn swyddogol i Gwilym ac Ann ar ran Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru gan nodi y byddai digwyddiad yn y Neuadd yn ystod y misoedd nesaf er mwyn i bobl fedru rhannu unrhyw enwau lleoedd sydd ganddynt i'w cynnwys ar fapiau o'r ardal.

Codwyd cyfanswm o £440 o ganlyniad i'r Noson ac erbyn hyn mae Capel Bethel wedi anfon £1,595 i Apêl Madagascar sy'n arwydd o awydd trigolion Tal-y-bont a'r cyffiniau i gynorthwyo cymunedau llai ffodus ar draws y byd. Diolch i bawb am eu cyfraniadau ac i'r gwirfoddolwyr fu'n llywio'r holl drefniadau. Cofiwch hefyd fod copïau o *Bwyd i Bawb* yn dal ar werth os yn chwilio am anrheg Nadolig funud olaf.

## Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

### Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00**  
**(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)**

Ystafelloedd ar gael

**01970 832245**

**garethwhitelion@outlook.com**



## Nofel Gyntaf Jodie

Petaech yn ymweld â siop trin gwallt Salon Leri ar hyn o bryd byddwch yn sicr o weld copi o nofel ffantasi swmpus yn gorwedd ar y cownter gan awdur o'r enw Jodie Bond. Byddwch yn cael eich temptio i bori trwy'r cynnwys wrth weld y clawr lliwgar a'r broliant cyffrous ar y cefn. Yna byddwch yn sylweddoli taw'r awdures yw merch Richard Burnham, Jodie, a fagwyd yma yn ein plith ac a addysgwyd yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont.

Teitl y nofel yw *The Vagabond King*, cyfrol a ddisgrifiwyd gan un adolygydd fel y Game of Thrones newydd. Lanswyd y nofel yn Distyllfa Dyfi, Corris lle mae mam Jodie, Mary yn un o'r cyd-berchnogion. Mae Jodie bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd lle mae'n dilyn gyrfa fel awdur, dawnswraig a chyfathrebwyr proffesiynol.



Pan holwyd Jodie yn ddiweddar am gynnwys y nofel soniodd am ei diddordeb ym mytholeg y Llychlynwyr a'r Groegiaid a'r dechneg a ddefnyddir ganddi o gynnwys Duwiau ystrywgar sy'n ymyrryd â bywydau'r prif gymeriadau.

Ceir ymdriniaeth o elfennau moesol hefyd yn arbennig, gallu'r cyfoethogion i brynu anfarwoldeb ar draul y bobl gyffredin, gallu sydd yn arwain at annhegwch ac anghyfartaledd.

Bu Jodie wrthi am dair mlynedd yn ymchwilio cefndir y nofel ac ynddi mae'n dilyn hynt a helynt tywysog o'r enw Threon a alludiwyd i wlad dramor lle mae'n rhaid iddo ddilyn bywyd crwydrol a chrafu bywoliaeth. Cawn hanes ei ymdrechion i adfer ei sefyllfa gyda chymorth criw brith o gymeriadau ac yn eu hwynebu mae byddin o anfarwolion.

Dyma anrheg berffaith felly i unrhyw un sy'n dymuno ymgolli yn myd ffantasi, ac wrth ddod at y diwedd cewch edrych ymlaen at ddarllen rhagor o hanesion yr arwyr gan fod dwy nofel arall ar y ffordd i gwblhau'r drioleg (er nad ydynt wedi eu hysgrifennu eto).

Llongyfarchiadau felly i Jodie ar ei champwaith a phob dymuniad da iddi fel awdures.

**The Vagabond King**  
**Parthian**  
**£9.99**

**Tylino Thai Trefechan**  
*Trefechan Thai Massage*

Tylino Thai £25 yr awr  
Tylino Olew £30 yr awr  
Tylinwraig â chymhwyster

Am sesiwn, ffoniwch ni ar  
**07878 071367**

Neuadd Pentref Capel Bangor

**Gyrfa Chwist**

**Dydd Mercher**

22/01/2020

@ 8 p.m

Croeso i Bawb



## Nid yw asyn i'r Nadolig yn unig

Mae cadw asynnod wedi mynd yn ffasiynol yn ardal Pentre-bach, Tal-y-bont. Tra bod un fferm yn cadw un mae'r Plas yn cadw dau a byngalo â chwech.

Yn y llun gwelir Ned asyn Mirain deuddeg oed, Lleucu wyth a Wil un, plant Nia a Deulwyn, Llwynysgubor-wen. Dywedir na ddaw llwynog yn agos i fferm os oes asyn yna ac mae hyn yn wir yn achos Llwyn medde Deulwyn. Nid yw wedi gweld llwynog yn ymweld â'r fferm ers i Ned gyrraedd o'r Borth. Yn ogystal cred rhai nad yw gwartheg yn erthylu os oes asyn gerllaw ond does dim gwartheg ar dir Llwyn i brofi hyn. Gan bod dim llwynog nid oes rhaid i Ned nadu, ond mae o.



Asynnod Kylie yw Lily a Betty ar dir Plas-y-brynau. Mae eu hanes yn drist. Fel y cŵn sydd ganddynt cafodd y ddwy asyn eu hachub. Dechreuodd y teulu siarad gyda dynes yn ystod gêm rygbi yn y stadiwm genedlaethol a deall ei bod hi'n chwilio am gartref i Lily

a Betty. Asynnod i sipsiwn a oedd wedi eu cam-drin ac wedi cael llond bol o ofalu amdanynt yw y ddwy. Cawsant eu rhyddhau ar ochr ffordd fawr ac roedd y ddynes wedi achub y ddwy. 'Mae digon o dir gen i', gwaeddodd Kylie a chyrraeddodd Lily a Betty eu cartref newydd ar noswyl Nadolig 2016. Sylwch bod ganddynt stabl ond does dim preseb.

Yn achos Claire, Heulfor eu casglu nhw mae hi. Does dim lle yn y byngalo ym Mhentrebach i'r chwech sydd ganddi felly maen nhw'n byw ym Mhant-y-dwn, fferm ei thaid; roedd o wedi cytuno i ddau/ddwy ond daeth eraill fesul un. Eu casglu allan o ddiddordeb mae Claire felly yn eu plith mae asyn rasio, Caspar, tri miniatur, Basil, Ziggy a Buddy a dau normal, Doyle a Hector; roedd ganddynt eu henwau cyn cyrraedd. Mae gofalu am y rhain yn haws na fferret a chamelion bobl eraill pan oedd yn gweithio yn y fil-feddygfa yn Nglantwymyn ac yn wahanol i'r fan honno, ei chyfrifoldeb hi yw y chwech. Mae'n rhaid iddi hi felly, ofalu amdanynt yn ddyddiol ac nid gwaith hawdd oherwydd mae angen diet arbennig gostus arnynt a digon o halen i lyfu.

Er bod cymaint â naw asyn ym milltir sgwâr Pentre-bach (heb sôn am y ddau sydd gyda Nia Davmor gynt yn ei chartref newydd Cwtch Ni) nid yw nadu Nedw yn ein nychu

Rhys Huws

**Salon Leri**  
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard  
10am-7pm  
Llun-Gwener  
(01970) 832 674



**Morlan**  
Canolfan ffydd a diwylliant  
Centre for faith and culture

- **yn bont** – rhwng yr eglwys a'r gymdeithas
- **yn fan cyfarfod** – i greu, i berfformio, i wrando, i ddysgu, i rannu
- **yn lle agored** – i bobl o bob oed a chefnidir a chred; cartref i'r gymuned

[www.morlan.cymru](http://www.morlan.cymru)  
01970 617996  
[morlan.aber@gmail.com](mailto:morlan.aber@gmail.com)

**morlan.cymru**  
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH  
01970-617996; [post@morlan.cymru](mailto:post@morlan.cymru)

## Merched y Wawr, Tal-y-bont

Yn ein cyfarfod ar 18 Tachwedd fe gawsom gwmni Claire Jones o Dal-y-bont. Mae Claire yn enedigol o Sunderland yng Ngogledd Lloegr a daeth i weithio i Warchodfa Ynyshir. Aros am flwyddyn oedd y bwriad ond 30 mlynedd yn ddiweddarach mae'n dal yma. Yn y cyfnod hwnnw mae wedi ymgartrefu yma yn Nhal-y-bont, wedi priodi a magu dau fab, ac wedi dysgu Cymraeg yn wych.

Rhyw flwyddyn yn ôl wedi gyrfa yn y maes gwarchod adar ac yn y maes cynladwyedd fe dderbyniodd ymddeoliad cynnar a chyda mwy o oriau hamdden fe gafodd gyfle i fynd nôl at un o'i diddordebau, sef gwnïo, a dechrau gwneud bagiau. Roedd yn cael cymaint o hwyl arni ac yn cynhyrchu mwy nag a allai hi eu defnyddio a mwy nag a allai eu rhoi yn anrhegion, penderfynodd fod hyn yn gyfle iddi gychwyn busnes. Erbyn hyn mae'n gwerthu ar wefannau cymdeithasol a gwefannau-ar-lein fel Etsy, ffeiriau crefftiau a siopau lleol.

Yr hyn sy'n gwneud ei chynnyrch yn unigryw yw'r hyn mae'n ei ddefnyddio i wneud y bagiau. Mae'n ailgylchu dillad o bob math. Mae wrth ei bodd yn chwilota mewn siopau elusen. Yn aml fe fydd yn cadw elfennau o'r dilledyn yn y bag, e.e. coler neu boced.

Os hoffech weld ei chynnyrch, chwiliwch am ei gwefan, sef Jones and Ginger. Pob dymuniad da iddi yn ei menter, a diolch iddi am noson hwyliog a difyr.

Eryl Evans

## Sul y Cofio

Cynhaliwyd Gwasanaeth Sul y Cofio eleni yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar y 10fed o Dachwedd gyda'r Parchedig Richard Lewis yn arwain. Cyfeiriodd at aberth y rhai a gollwyd tra'n atgoffa'r gynulleidfa o'r angen i frwydro'n barhaol dros achos heddwch.

Darllenwyd darnau o'r ysgrythur gan Nest Jenkins a Janet Morgan, ac yn dilyn y Weithred Goffa darllenwyd enwau y rhai a gollwyd gan Ieuan Morgan.



Wrth i sain yr utgorn dawelu cafwyd dwy funud o dawelwch, ac yn dilyn adrodd y Cymhelliad gosodwyd torchau gan John Morgan ac Anthony Southgate. Cyfeiliwyd i'r emynau gan Nia Richards, a'r trwmpedwr oedd Harvey Hassan o Ynys-las.

Yn dilyn ymchwil diweddar gan swyddogion y Neuadd Goffa derbyniwyd gwybodaeth am 3 bachgen lleol ychwanegol a gollwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac archebwyd cofeb

ychwanegol yn dwyn eu henwau. Roedd y gofeb yn ei lle ar gyfer y gwasanaeth eleni a bydd enwau'r tri o hyn ymlaen ymhlith y rhai a ddarllenir ar Sul y Cofio, sef William Henry Edwards, Dewi Mason ac Arthur Morris.,

*Rhian*

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy  
ffôn 832 612  
07835 525 553

Ers i'r eglwys gau yn Nhal-y-bont y capeli lleol mewn cydweithrediad â'r Cyngor Cymuned, a swyddogion y Neuadd Goffa sydd wedi bod yn gyfrifol am drefniadau Sul y Cofio.

## Colofn Elin

Mae wedi bod yn fis prysur yn y Cynulliad, ac rydym wedi bod yn trafod rhaglen diwygio'r Cynulliad. Mae ymateb positif wedi bod at y Bil Senedd ac Etholiadau, sy'n trafod gostwng yr oedran pleidleisio yng Nghymru i 16, gobeithio erbyn 2021. Mae'r Bil yn symud gam yn nes at derfyn ei daith ddeddfwriaethol, ac roedd yn galonogol fod y mwyafrif o Aelodau Cynulliad yn cefnogi gostwng yr oedran pleidleisio i 16 mewn cyfnod gwleidyddol mor arwyddocaol. Mae'r Senedd Ieuencid wedi creu argraff arbennig yn ei blwyddyn gyntaf ac yn dyst i ganlyniadau cadarnhaol rhoi llais i'n pobl ifanc. Bydd gostwng yr oedran pleidleisio yn adeiladu ar y gwaith hwn. Bydd cyfnod olaf y Bil yn cael ei drafod mewn pythefnos.

Yn lleol, mae datblygiadau yn y maes iechyd i'w gweld gydag agoriad Canolfan Minaeron yn Aberaeron. Mae meddygfa Tanyfron nawr wedi'i adleoli fan hyn yn ogystal â nifer o wasanaethau iechyd eraill. Gobeithiaf fydd y Bwrdd Iechyd nawr yn gallu cynnal nifer o glinigau yma, yn hytrach na bod rhai cleifion yn gorfod teithio'n bell am eu triniaethau. Rwy'n cadw llygaid ar y broses o agor canolfannau tebyg trwy'r etholaeth.

Mae sawl person wedi cysylltu gyda fy swyddfa yn ddiweddar yn sôn am y diffyg argaeledd deintyddion yng Ngheredigion. Mae hyn yn adlewyrchu darganfyddiadau'r Gymdeithas Ddeintyddol Brydeinig sy'n honni ar golled yn yng Ngheredigion wrth geisio dod o hyd i ddeintydd y Gwasanaeth Iechyd. Mae angen mynd i'r afael ar frys â'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu yng Ngheredigion, a byddaf yn codi hyn gyda'r Gweinidog Iechyd.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Beti Griffiths, Llanilar, oedd y wraig wadd yn y cyfarfod ar 12 Tachwedd, ac nid oedd angen ei chyflwyno i'r chwiorydd gan ei bod yn wraig brysur ac adnabyddus sy'n dod i gapel Rehoboth i bregethu yn achlysurol. Cyhoeddwyd hunangofiant Beti Griffiths, *Rho Imi Nerth*, ym mis Mai eleni, ac yn ystod ei sgwrs cawsom ganddi ychydig o hanes ei theulu, ei bywyd cynnar yn Lledrod, ei dyddiau ysgol a choleg, a'i gyrfa fel athrawes a phrifathrawes, a'r hanesion hynny yn cael eu hadrodd mewn dull ysgafn a ddeuai â gwên i'r wyneb. Bu Beti'n weithgar iawn yn ei chymuned fel Prifathrawes Ysgol Gynradd Llanilar, gyda'r Cwrdd Plant yn y pentref, ynghyd â nifer o weithgareddau eraill, a hefyd treuliodd ugain mlynedd yn gwasanaethu fel Ynad Heddwch. Diolchodd Eiriona i Beti am brynhawn difyr dros ben, a mwynhawyd te a bisgedi wedi ei baratoi gan Eirlys Jones gyda chyfraniad gan Non Griffiths

Carys Briddon

 <b>HUW LEWIS</b> 	<b>Teiars</b> <b>Aliniad Olwyn</b> <b>Ecsôsts</b> <b>Batris</b> <b>Brêcs</b> <b>Hongiad</b> <b>Bar tynnu</b> <b>Gwasanaeth</b> <b>MOT</b> <b>HUWLEWISTYRES.COM</b>	
<b>Glanyrafon</b>	Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan <b>ALIGNMYCAR.CO.UK</b> Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.	<b>Rhodfa'r Parc</b>
<b>ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000</b> <b>LLANBED 01570 422221</b>		

# Dydd a Nos

## Dyma bennod arall o'r stori ditectif gan Geraint Evans. Beth sydd gan y cymdogion i ddweud am Meurig Rhys?

Yn sgil darganfod y corff gweddnewidiwyd safle Penlan. Cyrhaeddodd y sgwad fflorensia yn eu siwtiau plastig gwyn i gychwyn ar y dasg o fynd drwy'r ardd a'r tŷ gyda chrib fân. Sylweddolwyd yn glou mai siawns isel oedd o ganfod dim o werth yn yr ardd a hynny am ddau reswm: yn gyntaf roedd y corff yno ers misoedd ac felly roedd unrhyw olion ei gludo a'i osod wedi'u hen ddinistrio; yn ail y tebygolrwydd o dramwy yn ystod yr un cyfnod, gan gynnwys wrth gwrs camau Teri ei hun. Roedd y cyfleoedd yn y sied a'r tŷ yn uwch. Gwyddai'r sgwad na all unrhyw droseddwr osgoi cario a gadael olion ei bresenoldeb ar fan y drosedd a llafuriodd pob aelod o'r sgwad i ddod o hyd i'r mymryn lleiaf o dystiolaeth.

Clochdar nid galaru oedd adwaith Marian Fosse, yn wir ni welwyd y ddyes yn colli hyd yn oed deigrin o glywed am farwolaeth ei chefnider. 'Roeddwn yn gwybod, wedais i droeon, dyle chi wrando,' oedd y diwn gron. Ei hmateb cyntaf oll oedd mynnu gweld y corff hyd nes i Gareth esbonio nad oedd corff fel y cyfryw i'w weld. Sobrodd o glywed hyn a gofyn, "sut allwch chi fod yn bendant mai corff Meurig sy yn y sied?"

"Dibynnu ar gofnodion deintyddol a chymhariaeth DNA. Bydd angen i chi roi sampl. Ar ôl gorffen tu allan bydd y sgwad yn dod i'r tŷ ac mae'n bwysicach nag erioed i beidio cyffwrdd ag unrhyw ddodrefnyn nag arwynebedd. Ni eisoes wedi gadael marciau bysedd a bydd rhain yn cael eu hanwybyddu. Cwestiwn amlwg, oedd gan Meurig Rhys elynion?"

"Mae gan pob academydd elynion er anodd dychmygu y gallai cenfigen ysgolheigaidd arwain at fwrddwr. Fel dieithryn, amhosib i fi ateb am y sefyllfa yn Dol-y-gaer. Bydd rhaid i chi holi'r cymdogion ac yn arbennig Ellen Parry yn Gorwel, y tŷ drws nesaf. Dyna'r fenyw fusneslyd glapiodd y stori wirion am Meurig ar daith ymchwil yn America."

Roedd 'drws nesaf' yn gam ddisgrifiad oherwydd fod Gorwel o leiaf chwarter milltir i ffwrdd ar hyd hewl garegog. Daliwyd Teri mewn cawod drom wrth iddi ddringo at y lle a rhogodd yn dawel o deimlo'r gwlybanaeth yn treiddio drwy ei chot ysgafn. Yr unig olwg o fywyd oedd yr ieir yn crwydro'n rhydd ar y clos ac er iddi ganu'r gloch sawl gwaith ni chafwyd ateb. Yna clywodd gyfarthiad, gweld ci defaid yn rhuthro tuag ati gyda pwten o wraig ganol oed yn ei ddilyn.

"Heel, Dyfi," bloeddiodd y wraig heb unrhyw effaith ar y creadur anystywallt. "Heel, er mwyn y nefoedd, na ddigon ar y cyfarth. Sdim ishe i chi boeni, wneith Dyfi ddim enoi."

Clywodd Teri addewidion cyffelyb droeon a chiliodd o'r neilltu. "Mrs Ellen Parry?" Nodiodd y wraig. "Ditectif Sarjant Teri Owen, Heddlu Dyfed-Powys. Bosib cael gair am Athro Rhys, Penlan?"

"Wrth gwrs, dewch i'r tŷ, mas o'r glaw."

Rhoddyd Teri i eistedd mewn cadair siglo a gosodwyd paned o'i blaen. Gan nad oedd sicrwydd eto fod Meurig Rhys wedi'i lofruddio sylweddolodd mai gwell oedd cychwyn yn ben-agored. "Shwt fath o berson oedd yr Athro Rhys?"

"Propor, dyna'r gair gorau. Allai byth a dweud mod i'n yn ei nabod yn dda, er i ni fod yn gymdogion ers ugain mlynedd. Cadw ffiniau, dyn preifat, yno os oedd angen cymwynas, byth yn busnesa ac yn neilltuol o garedig adeg colli Sam y gŵr. Rhywbeth wedi digwydd i Professor Rhys?"

Yr un gofal. "Marwolaeth o dan amgylchiadau amheus."

Ciledrychodd Ellen Parry drwy ei sbectol drwchus. "Yn America?"

"Na. Ni wedi darganfod corff yn Penlan."

"Beth, yn y tŷ? O ni'n deall fod Doctor Rhys dros y dŵr gyda'i waith."

"Meddylwch yn ofalus Mrs Parry. Pwy ddywedodd fod Meurig Rhys wedi mynd i America?"

"Honna oedd yn helpu yn Penlan. Cyndyn i gynnal sgwrs. Neb yn cael mynd i'r tŷ a phrin neb yn gwybod pwy oedd hi. Benson efallai."

Trwy ddyfal berswâd a grym ei gerdyn gwarant cafodd Gareth neidio'r ciw a'i dywys i swyddfa Doctor Charlotte Wright ar lawr cyntaf y syrjeri. Eglurodd bwrpas yr ymweliad a dod yn syth at y pwynt, "cyswllt diweddaraf y syrjeri gyda Meurig Rhys?"

Trodd y meddyg at sgrin ei chyfrifiadur. "Ail o Fehefin, pedwar mis yn ôl Ymweliad brysiog rhwng galwadau eraill."

"A natur yr afiechyd?"

"Dioddef o sawl cyflwr, yn yn effeithio ar y llall. Yn gyntaf clefyd y siwgr ac felly yng nglwm wrth bigiadau inswlin. Gyda'r clefyd rhaid cadw at batrwm cyson o ran deiet ac osgoi bwyd a diod gyda lefel uchel o siwgr. Roedd Meurig Rhys wedi llithro o'r patrwm, yn arbennig drwy yfed mwy o alcohol. Hyn yn ei dro wedi arwain at bwysau gwaed uchel, clefyd y galon a dirywiad cyffredinol."

"A'i gyflwr adeg yr ymweliad?"

"Ffwndrus ac amharod i dderbyn triniaeth gan ferch. Ym marn y dysgedig Athro, dynion yn unig oedd â'r gallu i fod yn ddoctoriaid. Mewn geiriau eraill, deinosor o siofinist. A cyn i chi ofyn – record o'r dosau y dosau i gyd ar y cyfrifiadur."

"Rhywbeth arall?"

Sgroliodd Charlotte Wright at ail dudalen. "Anhawster canolbwyntio a tueddiad rhyfedd i giglan a chwerthin. Cryndod yn y dwylo, deillio bron yn sicr o or-yfed. Fel wnes i sôn ffwndrus ac wedi syrthio a tharo ei ben. Eli i wella'r clwyf. O ie, cymryd tabledi lladd poen cryfion i leddfu effeithiau migraine."

Y cwestiwn allweddol. "Rhywun arall yn y tŷ?"

"Y nyrs wrth gwrs. Sori, anghofio dweud fod yr Athro Rhys o dan ofal nyrs drwy'r amser ac felly'n hollol saff."

O ganlyniad i ymdrech gref llwyddodd Gareth i gadw'r cynnwrf o'i lais, "manylion y nyrs, enw efallai?"

"Dim problem, yr enw yn y cofnod. Benson, ie dyna ni, Nyrs Benson."

© hawlfraint: Geraint Evans

Pwy yw'r llofrudd? Mynnwch gopi o'r rhifyn nesaf i ddarganfod mwy.

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk  
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands  
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars  
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion  
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig  
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Tensiwn ar bob tudalen!

Y LLWYBR  
GERAINT EVANS

LLAFNAU  
GERAINT EVANS

DIAWL  
Y WASG  
GERAINT EVANS

Y GELYN  
CUDD  
GERAINT EVANS

DIGON I'R  
DIWRNOD  
GERAINT EVANS

Nofelau ditectif  
GERAINT EVANS

yolfa.com

Llyfrau dros Gymru

Gwasanaeth Scania  
ARTHUR MORGAN



Pencefn ,Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion  
01239 615085 – 07721 786292



## Newyddion Cletwr

Erbyn heddiw, mae llawer o bobl yn siarad am sawl cwsg sydd ar ôl tan 'Dolig. Wel, mae Nadolig wedi cyrraedd yn Cletwr eisoes, ac mae'n parhau am wythnosau!

Cawsom Ffair Crefft Nadolig llwyddiannus iawn ar y 6ed - nifer o bobl leol hynod o ddawnus yn gwerthu eu cynnyrch tra bod pawb yn yfed gwin cynnes a mins peis. Wythnos cyn hynny trefnwyd Sioe Nadolig Cletwr am y tro cyntaf - ond dim y tro olaf! Fel dywedodd Karen "Jyst fel sioe pentref - ond yn fwy Nadoligaidd". Cystadlaethau coginio ar gyfer tŷ bara sinsir a mins peis, a dosbarth crefft ar gyfer Torch tymhorol. Bu dosbarthiadau ar gyfer plant ac oedolion - noson odidog. Diolch i Beti Wyn am feirniadu.



Wrth gwrs, weithiau mae angen ar bobl i ddysgu sut i baratoi at y Nadolig, felly rydym wedi trefnu nifer o weithdai dros y mis diwethaf - gwneud Torch, gwneud briwgig (gyda Jane) a sut i lapio anrhegion. Bydd mwy o'r fath blwyddyn nesaf.

Ond dydyn ni ddim wedi gorffen eto. Am 4.00 y.p. Dydd Sadwrn y 14eg bydd gwasanaeth carolau cymunedol yn y caffi. Wedyn ar yr 20fed, bydd 'Nadolig Singalong' (caraoke cymunedol!) gyda pharti pen-blwydd Sue. Croeso cynnes i bawb - dewch â phlât o fwyd.

Ac wedyn, y diwrnod mawr, ar Noswyl Nadolig fe fydd y Dyn ei Hun yn dod rhwng 11.00 a 13.00.

Bydd y siop a chaffi ar gau ar y 25ain a 26ain, ac eto ar Ddydd Calan, ond byddwn ni ar agor am ein horiau arferol oni bai am hynny.

Byddech chi'n disgwyl i ni fynd yn dawel ar ôl popeth yn ystod mis Rhagfyr, ond na, mae llawer o bethau wedi'u trefnu yn y Flwyddyn Newydd, gan gynnwys gweithdai, cyngherddau a llawer mwy.

Edrychwn ymlaen at y Flwyddyn Newydd, blwyddyn arall yn Cletwr o werthu pethau hanfodol (a phethau dim cweit mor hanfodol), gwneud coffi a bwyd blasus ar gyfer trigolion yr ardal ac i ymwelwyr, ac wrth gwrs, cael hwyl a chwerthin bob diwrnod.

Ar ran y Bwrdd, y staff a'n gwirfoddolwyr di-ri, hoffwn ddyuno "Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda" i chi oll, a diolch i'r staff a'r gwirfoddolwyr am eu gwaith di-baid. Gobeithio cawn eich gweld chi yn y siop a chaffi yn rheolaidd yn y dyfodol - a beth am wneud penderfyniad i agor y flwyddyn newydd drwy ymuno â'n tîm o wirfoddolwyr?

## Sefydliad y Merched Taliesin

Daeth llwyddiant ysgubol i'r gangen pnawn Sadwrn 16 Tachwedd, pan enillodd Taliesin pob un o'r brif wobrau yn y Rali Aeaf a gynhaliwyd yn Neuadd Felin-fach.

Dyfarnwyd hwy yn gyntaf yn y gosodiad cydweithredol ar thema Coedwig Aeafol

Hwy enillodd y nifer mwyaf o farciau yn y Rali, ac enillodd Beti Wyn y nifer uchaf o farciau yn yr adran goginio ac yn yr adran gosod blodau.

### Canlyniadau unigol

#### Coginio

Tsytni Betys: C.U. Val Walsh

Cacen Sinsir: 2<sup>il</sup> Beti Wyn

Bisgedi: 1<sup>af</sup>. Beti Wyn

Roliau Bara Sinsir: 1<sup>af</sup> Beti Wyn, 2<sup>il</sup> Val Walsh, 3<sup>ydd</sup> Liz Roberts

Addurniadau Cacennau Bach: 1<sup>af</sup> Liz Roberts

#### Gosodiadau Blodau

'Coch' gosodiad pitw: 1<sup>af</sup> Beti Wyn, 2<sup>il</sup> Chris Gilbert

'Bore Rhewllyd': 1<sup>af</sup> Chris Gilbert, 2<sup>il</sup> Beti Wyn'

'Torri Mas': 1<sup>af</sup> Beti Wyn

'Gosodiad mewn sosban': 3<sup>ydd</sup> Beti Wyn, C.U. Chris Gilbert.

Gosodiad i'r Ffair Aeaf 'Coedwig Aeafol': 1<sup>af</sup> Beti Wyn, C.U. Chris Gilbert

#### Crefft

Ffotograffiaeth 'Coedwig Aeafol': 1<sup>af</sup> Beti Wyn

Bunting Nadoligaidd: C.U. Lynda Hicks.

Fe wnaeth Liz Roberts a Beti Wyn gynrychioli Sefydliad y Merched y Sir yn y Ffair Aeaf yn yr adran Goginio ac yn yr adran Gosod Blodau. Llongyfarchiadau i Beti Wyn ar ei llwyddiant yno hefyd.

**Y CRYNWYR**

HOLI AC ADDOLI  
CWRDD CYFRWNG CYMRAEG  
Y trydydd Sul o'r mis 15 Rhagfyr am 3 pm

TY CWRDD Maes Maelor Penparcau SY23 1SZ

CROESO CYNNES I BAWB  
Ymholiadau: 01970 612794 - medijames22@gmail.com

**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,  
Ceredigion SY24 5HJ  
[helen.iwan@btinternet.com](mailto:helen.iwan@btinternet.com)  
01970 832760

**STORFA HUNAN FYNEDIAD**

**UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI**

**MONITRO DIOGELWCH 24 AWR**

**Storfa Cartref & Busnes**

Bocsas a Bubblewrap

Symud gyda **Wales REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

**MID WALES STORAGE**

Tel: 01654 703592  
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ  
[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)

**Alun Davies**  
Contractiwr Trydanol

**T** 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA  
**E** [alun.davies142@btinternet.com](mailto:alun.davies142@btinternet.com)

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

## Cyfarfod Misol Mis Tachwedd 2019

Cynhaliwyd cyfarfod Mis Tachwedd ar Nos Lun, 25 Tachwedd 2019, gyda saith o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Mr Rab Jones. Estynnodd y Cadeirydd, Cyng David Jones, groeso cynnes i pawb.

## Cyllideb a Praesept 2020 i 2021

Prif drafodaeth y noson oedd gosod cyllideb a phraesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 i 2021. Cyflwynodd y Clerc amcan gyllideb i'r Cynghorwyr i'w ystyried. Yn dilyn trafodaeth cytunodd mwyafrif o'r Cynghorwyr i dderbyn y gyllideb heb unrhyw newidiadau a chytunwyd gosod praesept o £15,000. Mae hyn yn gynydd o 4.2% ar y ffigwr ar gyfer 2019/20.

## Cynllunio

Cadarnhaodd y Clerc nad oedd unrhyw geisiadau cynllunio newydd i'w hystyried.

## Seremoni Sul y Cofio a Seremoni Goleuo y Nadolig

Cafwyd diweddariad ar Seremoni Sul y Cofio a chadarnhawyd fod tua 60 wedi dod at ei gilydd yn y Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont i gofio aberth nifer o drigolion yr ardal a gollwyd yn y ddau Rhyfel Byd. Cafwyd diweddariad hefyd ar y trefniadau tuag at Seremoni y Goleuo ar brynhawn Dydd Iau, 5 Rhagfyr 2019.

## Materion Ffyrdd

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o eitemau sydd yn angen sylw ar y ffyrdd yn y Cymuned. Eglurodd Cyng Nia Richards fod pryderon yn parhau ynglŷn â chyflymder traffig ar y ffordd fawr yn dod i mewn i bentref Tal-y-bont a chytunwyd gwasgu am ymateb oddi wrth Ken Skates AC.

## Materion Eraill

Derbyniwyd adroddiad oddi wrth cwmni Zurich ar yr offer chwarae yn y Cae Bach yn Nhal-y-bont a chytunwyd cysylltu gyda swyddogion y Cyngor Sir i gofyn am gymorth gyda nifer o eitemau sydd yn angen cael sylw. Cafwyd adroddiad fod angen sylw i'r lloches bws ger yr Ysgol yn Nhal-y-bont oherwydd fod yna banel ar goll. Cafwyd diweddariad hefyd ar nifer o faterion eraill yn cynnwys y fynwent a'r sedd wag ar y Cyngor.

## Cyfarfod Nesaf

Nid oes yna cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn ystod Mis Rhagfyr ac felly mi fydd cyfarfod misol nesaf y Cyngor ar Nos Lun, 27 Ionawr 2020. Atgoffwyd y Cynghorwyr y bydd yr Is-Bwyllgor Cyllid yn cwrdd ar Nos Lun, 13 Ionawr 2020, i drafod geisiadau am gymorthdaliadau. Cytunwyd y bydd Cyng Bleddyn Huws yn cymryd lle Sue Jones-Hughes ar yr Is-Bwyllgor yma.

Rab Jones  
Clerc Cyngor Cymuned  
Ceulanamaesmawr  
rab.jones@btinternet.com  
07831 402 002

**LRJ**   
**Plymio  
cyffredinol  
a chynhaliaeth**  
Llion Jenkins  
07958 701861   
llionjenx94@hotmail.co.uk

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

## Cymorthdaliadau 2019/20

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymeithasau a mudiadau lleol. Dylai ceisiadau gynnwys disgrifiad o'r gweithgareddau, nifer y bobl byddai'n elwa, a manylion unrhyw brosiect arbennig (os yn gymwys). Ni all y Cyngor ystyried unrhyw gais heb gopi o'r fantolen ddiweddaraf.

Dylid danfon ceisiadau at:-

Mr Rab Jones  
Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr  
Erw Deg  
Glantwymyn  
Machynlleth  
SY20 8LD  
rab.jones@btinternet.com  
Dyddiad cau:- Dydd Iau, 10 Ionawr 2019

## Cronfa Eleri

**Blwyddyn 2019 – dros £19,775 i'w rannu**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa



Ffurflen gais a manylion ar gael o: [cronfaeleri.cymru](http://cronfaeleri.cymru)

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri

Garreg Wen

Tal-y-bont

Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: [ymholiadau@cronfaeleri.com](mailto:ymholiadau@cronfaeleri.com)

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 15<sup>fed</sup> 2020**

### Amcanion Cronfa Eleri

*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol  
cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

## Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth Gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylid anfon ceisiadau ynghyd a chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Y Clerc

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Blaenddol

Tre'r-ddol

Machynlleth

Powys

SY20 8PL

Erbyn diwedd Ionawr 2020 fan bellaf.

# Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



**01970 832772 / 07846 255881**  
[grantmayhewltd@yahoo.co.uk](mailto:grantmayhewltd@yahoo.co.uk)

## Yr Hen a'r Newydd



Mae Steve Eaves wedi bod yn perfformio yn y ddau Lew Tal-y-bont dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. Efallai y cafwyd y perfformiad gorau erioed yn y Sesiwn Nos Wener ar 15 Tachwedd, gyda'r Llew Du yn orlawn o ffans hen a newydd.

Y tro hwn cefnogwyd Steve gan griw o gerddorion talentog ac, fel y ffans, rhai yn hen a rhai yn newydd. Ychwanegiad swynol i'r band oedd yr acordion a chwaraewyd yn gelfydd gan Stephen Rees.

Perfformiwyd caneuon hen a newydd, gan gynnwys rhai o'r CD, 'Y dal yn dyn, y tynnu'n rhydd', a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

O weld a chlywed ymateb y gynulleidfa ni fydd yn hir cyn y caiff Steve wahoddiad arall i'r Sesiwn Nos Wener.

### Gwrthryfel Difodiant

Bu protestiadau y mudiad Gwrthryfel Difodiant (Extinction Rebellion) yn y newyddion yn aml eleni wrth i ymgyrchwyr o blaid y blaned feddiannu strydoedd yng Nghaerdydd a Llundain er mwyn tynnu sylw at yr argyfwng sy'n wynebu'r ddaear. Nos Fercher, 4 Rhagfyr cynhaliwyd cyfarfod yng Nghaffi Gruff, Tal-y-bont lle rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd glywed am brofiad y protestwyr o ardal Tal-y-bont a Taliesin a fu'n rhan o'r gwrthdystio.

Mudiad amgylcheddol yw XR sy'n credu'n gryf mewn defnyddio dulliau di-drais i orfodi llywodraethau i weithredu cyn i'r newidiadau yn ein hinsawdd, a'r colledion enbyd i bioamrywiaeth gyrraedd sefyllfa di-droi-nôl. Maent yn pwysu ar lywodraethau i ddweud y gwir wrth y bobl am yr argyfwng sy'n wynebu'r ddaear ac i weithredu ar unwaith. Credant yn gryf mewn creu cynullïadau o ddinasyddion ar bob lefel er mwyn dwyn y maen i'r wal.

Yn ystod y cyfarfod cawsom air o brofiad gan Linda, Alexis, Sue, Barry a Sarah ac eraill o gylch Aberystwyth yn dilyn y protestiadau diweddar. Trafodwyd yr her o greu cymdeithas digarbon a'r newidiadau y bydd angen eu hwynebu os am sicrhau na fydd ein plant a phlant ein plant yn etifeddu byd sy'n wynebu argyfyngau cymdeithasol ac ecolegol trychinebus.

Cytunwyd i drefnu cyfarfodydd pellach yn y dyfodol.



## Y Gair Olaf



Fel merch ffarm, roedd bod 'mas' yn yr awyr iach yn rhan annatod o fy magwraeth. Wrth fagu plant fy hun roeddwn yn awyddus eu bod hwythau yn cael yr un cyfleoedd i fwynhau byd natur ac i gadw'n heini.

Ers ymddeol dros ddeng mlynedd yn ôl, teg dweud mod i wedi teimlo gwacter. Daeth 'mynd am wâc' fel achubiaeth a datblygodd o fod yn rhywbeth ad hoc ro'n i'n gwneud ar ben fy hun i fod yn aelod o sawl grŵp cerdded erbyn hyn. Dwi hyd yn oed wedi magu'r hyder i arwain taith gyda Chymdeithas Edward Llwyd a dwi'n ddiolchgar i'r cyfeillion sydd wedi fy annog i wneud hynny. Mae cerdded yn llesol ar sawl lefel, er mae'n gallu codi'r chwant am fwydydd melys!

Rwy'n ffodus o'm hiechyd ac yn gwerthfawrogi byw mewn ardal sy'n cynnig cyfleoedd di-ri i fwynhau'r awyr iach. Er troedio nifer o lwybrau ardal Papur Pawb a phapurau bro cyfagos lawer gwaith, nid yw'r un wâc byth yr un peth a dwi'n dal i ddarganfod rhai newydd. Mae'r tywydd, y tymhorau a'r cwmni yn golygu bod rhywbeth gwahanol i'w weld a'i fwynhau bob tro. Mewn oes ble mae pris ar bopeth, da yw gallu mwynhau'r pethau syml mewn bywyd - a hynny am ddim, ac ar ein stepen drws.

Felly fydda i ddim yn gwneud adduned blwyddyn newydd i ymuno ag unrhyw gampfa, ond rwy'n byw mewn gobaith y daw Siôn Corn â phâr o sgidiau cerdded newydd i fi!

Eurllys Jones



Rowland Davies Dôl Clettwr yn cyflwyno sicw gwerth £1,600 yn y Ffair Aeaf i Gronfa Sir Benfro Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ar ran Pwyllgor Ymgynghorol Ceredigion.

Llun: Arvid Parry-Jones

## argraffu da am bris da



**y Lolfa**

holwch Paul am bris ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)  
01970 832 304 [www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)

# Chwaraeon



## Anrheg Nadolig i Bysgotwyr

Os yn chwilio am anrheg Nadolig berffaith i'r pysgotwyr yn eich teulu y Nadolig hwn ewch ati'n syth i chwilio am gopi o gyfrol newydd George Barron 'A Fine Line'. Yn dilyn llwyddiant ei gyfrol flaenorol yn 2016 aeth George ati gyda chymorth cwmni cyhoeddi ei fab Steven yng Nghaeredin i hunan-gyhoeddi 1,500 o gopïau ac eisoes gwerthwyd dros 500 copi yn dilyn lansiad hynod o lwyddiannus yn Galway, Iwerddon ddechrau mis Tachwedd. Wyres George, Amy, sy'n gyfrifol am ddyluniad hardd y gyfrol.



# Campwyr Disglair Ysgol Tal-y-bont

Uchod: *Tim Hoci Ysgol Tal-y-bont fu'n cystadlu mewn pencampwriaeth ar gae'r brifysgol yn Aberystwyth*

De: *Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a fu'n cystadlu yng ngala nofio'r Urdd.*



*Finlay Saycell fydd yn cynrychioli Ceredigion mewn dwy ras yng ngala nofio cenedlaethol Yr Urdd yng Nghaerdydd ym mis Ionawr.*



**Gadewch i Cletwr gymryd straen y 'Dolig!**

Archebwch eich cig o gigyddion lleol, neu ddewis bocs ffrwyth a llysiau. Cewch hyd yn oed archebu stwffin a saws bara enwog Jane, a danteithion pŵb. I gyd i'w godi o Cletwr ar Noswyl Nadolig.

Ffurflenni archeb ar gael yn y Siop.

*Nadolig Llawn i bawb*

Cynhwysir hanesion difyr am y pleser a geir wrth bysgota llynnoedd, o'r lan ac mewn cwch gyda manylion trylwyr a lluniau gwych o'r grefft o glymu plu pysgota. O ddiddordeb arbennig i ni mae cyfeiriadau at lynnoedd Tal-y-bont a Nant-y moch a phwt hyfryd am gyfaill agos yr awdur, sef Moc Morgan, a llun o'r gofeb a godwyd iddo uwchlaw Llynnoedd Teifi. Croeso i chi alw heibio Brynawel, Tal-y-bont i brynu copi wedi ei lofnodi yn uniongyrchol gan yr awdur.

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi  
**MYNACH**  
Garden Maintenance

Tori Porfa, Sietynau, Tirlunio a Garddio  
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:  
07792457816 / 01974 261758

e-bost:  
mynachhandyman@yahoo.com